AMGUEDDFA CYMRU

# CAMU 'MLAEN

**Ydych chi'n cyfri'ch camau bob dydd**? Yma yn Bit Pit gallwn eich helpu i ychwanegu at eich cyfanswm, wrth i chi archwilio'r hen adeiladau, mynd ar daith danddaearol, neu fwynhau'r Baddondai Pen Pwll a'r Arddangosfeydd. Mae mynd am dro yn dda i'ch iechyd corfforol a meddyliol. Felly cymerwch y cam cyntaf a mwynhau rhai o drysorau'r Amgueddfa.

## LLWYBR 1

TUA 630 O GAMAU

Dysgwch beth sy'n digwydd ar ben y pwll. Dilynwch Gylchdaith y Dramiau i'r Lamprwm i gwrdd â'r caneris, cyn crwydro nôl lawr i'r Felin Lifio ac yna i Efail y Gof, y Stablau a'r Pwll Chwarae.

## LLWYBR 2

TUA 688 O GAMAU

Gwisgwch y cit a theithiwch 300 troedfedd o dan y ddaear gyda'ch tywysydd, i ddysgu sut oedd bywyd i'r miloedd o ddynion, menywod a phlant oedd yn gweithio dan ddaear. Mae rhai ardaloedd yn llithrig, ac mae gofyn gwylio eich pen mewn rhai llefydd! Taith i bobl anabl ar gael.

## LLWYBR 3

TUA 895 O GAMAU

Cerddwch i arddangosfa a phrofiad clyweledol y Brenin Glo, lle bydd canllaw rhithiol yn esbonio'r gwahanol gyfarpar gâi ei ddefnyddio dan y ddaear. Ewch yn eich blaenau i Dŷ'r Ffan - lle pwysig iawn gan ei fod yn awyru'r pwll glo. Yna, cerddwch draw at fynedfa'r Baddondai Pen Pwll, gan ddweud helo wrth y defaid cyfeillgar yr ochr draw i'r ffens!

## LLWYBR 4


TUA 435 O GAMAU

Yn y Baddondai Pen Pwll cewch ddysgu am stori'r diwydiant glo yng Nghymru, a sut y newidiodd bywyd a gwaith y glöwr rhwng 1850 a 2000. Daeareg, cymunedau, trychinebau, Undebau Llafur a llawer mwy - cymerwch eich amser i archwilio popeth, cyn cael gorffwys a phaned o de, cacen neu bryd bwyd poeth yn Ffreutur y Glowyr.

## LLWYBR 5

TUA 463 O GAMAU

Mae ein llwybr olaf yn dod â chi yn ôl i'r dechrau, drwy ein siop. Ond cyn ffarwelio, wrth i chi adael y Baddondai Pen Pwll, cymerwch eiliad i fwynhau'r olygfa odidog o'r mynyddoedd, y tipiau, a'r dref islaw sydd i gyd yn rhan o safle Treftadaeth Byd UNESCO. Yna ar eich ffordd allan, crwydrwch lawr i'r Storfeydd i weld rhai o'r peiriannau torri glo, a galw heibio ein gofod arddangosfeydd dros-dro.



Os ydych chi am gerdded mwy fyth (neu am ymweld â ni eto), mae Tomen Coety, Llynnoedd Garn, y Gweithfeydd Dur, y Ganolfan Treftadaeth Byd a thref Blaenafon i gyd o fewn pellter cerdded, ac oll yn cynnig cymysgedd o hanes, treftadaeth a golygfeydd gwych.

Amcangyfrifon yw'r rhifau uchod, a gallant amrywio rhwng teclynnau cyfri camau.